

Gwybodaeth gan y Bwrdd Caffael

Yng nghyfarfod y Bwrdd Caffael ar 18 Chwefror 2015, y prif eitemau a drafodwyd oedd dyfodol Prosiect Doniau Cymru, dysgu mwy am fethodoleg buddion eGaffael a'r newyddion diweddaraf am waith y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol.

- Oherwydd bod Cyfarwydddebau newydd yr UE yn dod i rym ddiwedd mis Chwefror, cafwyd trafodaeth am ddogfen a grëwyd i roi trosolwg i brif weithredwyr ac arweinwyr o'r cyfleoedd y mae'r datblygiad hwn yn eu cynnig. Roedd yn allweddol bod y ddogfen yn amlinellu effaith y newidiadau a bod mwy o gymorth manylach ar gael gan Gwerth Cymru. Roedd y ddogfen i fod yn gael ei diwygio i gynnwys enghreifftiau ymarferol a phendant o sut y byddai'r Cyfarwydddebau'n gweithio ar lefel ymarferol, drwy e-ddogfen â dolen i Gwestiynau Cyffredin o bosibl.
- Roedd Gwerth Cymru yn rhan o drafodaethau parhaus gyda Llywodraeth y DU i geisio sicrhau dynodiad cyffredinol ar gyfer caffael cyhoeddus. Bu'r Bwrdd yn ystyried beth y byddai hyn yn ei olygu o ran llywodraethu caffael yng Nghymru a'r Datganiad Polisi Caffael diwygiedig. Roedd penderfyniad am y cais am ddynodiad ar fin digwydd a byddai Gwerth Cymru yn rhoi gwybod i'r Bwrdd beth oedd y canlyniad a'r goblygiadau cysylltiedig.
- Cafodd y Bwrdd weld enghreifftiau o wariant 2012/13 o fewn a thu allan i weithgareddau'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol. Roedd y Bwrdd yn cydnabod pwysigrwydd yr wybodaeth hon a sut y gall sefydliadau unigol ei defnyddio i helpu i lywio strategaethau caffael lleol. Cydnabuwyd nad oedd y dull o gategoreiddio gwariant yng Nghymru bob tro'n ystyried y presenoldeb mawr y mae cyflenwyr cenedlaethol yn gallu ei gael yng Nghymru, a chytunodd y Bwrdd y byddai adrodd ar ganlyniadau Buddiannau Cymunedol yn helpu i weld y gwerth a ddaw gan gyflenwyr nad ydynt wedi'u lleoli yng Nghymru. Roedd staff y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn ei ddefnyddio bron pob dydd i lywio strategaethau ar gyfer categorïau ac roedd Will Godfrey yn awyddus i ddeall bod yr wybodaeth hefyd yn cael ei defnyddio gan bob sefydliad unigol. Mae disgwyl i'r dadansoddiad o ddata gwariant 13/14 ddod nôl yn wythnos gyntaf mis Mawrth.
- Bu'r Bwrdd yn adolygu methodoleg Buddion eGaffael a chlywyd bod gwaith yn mynd rhagddo i integreiddio'r fethodoleg i'r model gwiriadau Ffitrwydd i Gaffael. Bydd y fethodoleg yn cael ei lansio'n swyddogol yn ystod yr Wythnos Gaffael a chytunodd y Bwrdd i gefnogi'r syniad o fabwysïadau'r dull hwn o fewn eu sectorau.
- Bydd rhaglen bresennol Doniau Cymru yn dod i ben ym mis Mehefin ac roedd trafodaeth nawr yn mynd rhagddi ynglŷn â rhaglen olynol a allai wneud cais am gymorth Cronfa Gymdeithasol Ewrop. Bu'r Bwrdd yn edrych ar grynodedb gweithredol achos busnes bras a chydabuwyd bod angen mawr i'r prosiect o fewn y sector cyhoeddus. Roedd y Bwrdd yn hapus i fwrw ymlaen â'r Achos Busnes Bras a byddai'n adolygu'r Achos Busnes Llawn yn ddiweddarach.
- Roedd y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol bellach wedi gwneud arbedion ariannol o dros £4.2m a byddai adroddiad am hyn yn cael ei anfon at aelodau'r Bwrdd pan fyddai ar gael. Yn ddiweddar, mae'r fframwaith deunyddiau Adeiladu wedi cael ei ddyfarnu a dyma un o 4 sydd wedi gael ei ddyfarnu gan y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol gydag 8 hysbysiad arall am gontractau eisoes wedi'u cyhoeddi ac yn cael eu dyfarnu'n fuan.
- Roedd gwaith yn parhau o hyd ar y dangosfwrdd adrodd, ac ar y pryd roedd Gwerth Cymru yn edrych ar y trefniadau adrodd a sut y gellid eu gwella. Byddai targedau a dangosyddion yn cael eu hystyried ar gyfer eu hychwanegu at y dangosfwrdd gyda mesurau caled a meddal. Yn dilyn y gwiriadau Ffitrwydd Caffael, dim ond 14 o awdurdodau lleol a ymatebodd gyda chynllun gweithredu neu'r newyddion diweddaraf. Cytunodd Will Godfrey i gymryd camau dilynol gyda pobl Awdurdod Lleol.

Y Cyfarfod Nesaf: 22 Ebrill 2015: 2pm – 4pm